# Hysbyseb BBC Wales am Dymor Dylan Thomas

http://www.bbc.co.uk/programmes/p01t2jgt




Mae Benjamin Zephaniah yn darllen *Do Not Go Gentle Into That Good Night* ar gyfer ei raglen ar BBC1, *Ugly Lovely Swansea - A poet on the estate.*
http://www.bbc.co.uk/programmes/p01xwkv6



## Syniadau addysgu

Gwyliwch gyfweliad Hannah Ellis lle mae hi'n sôn am ddylanwadau ac ysbrydoliaeth Dylan Thomas; mae hi'n sôn sut mae ei waith yn berthnasol, ac yn oesol. Mae pobl wedi mynd yn ôl at ei waith a'i addasu mewn nifer o ffyrdd gwahanol dros y degawdau.

*Do Not Go Gentle Into That Good Night* yn waith cymhleth, ond o'i ddarllen yn uchel, mae ei rythm a'i gyflymder yn ei wneud yn hawdd gwrando arno ac yn hawdd ei ddeall.

- Am beth mae'r gerdd, tybed, a pham penderfynodd Dylan ei ysgrifennu?

- Gwrandewch ar hysbyseb BBC Cymru, (heb yr elfen weledol). Pa mor effeithiol yw'r lleisiau?
- Yna chwaraewch y darn eto gyda'r elfen weledol. Ydy hyn yn gwneud gwahaniaeth i'ch dealltwriaeth o'r gerdd? Os felly, sut?
- Sut mae'n gwneud i chi deimlo?

- Yna gwrandewch ar fersiwn Zephaniah ac eto gyda'r elfen weledol.

- Pa un yw'r mwyaf effeithiol a pham? Beth yw'r gwahaniaeth yn y ffordd y mae'n cael ei ddarllen?

- Ar ôl gwrando ar y ddau, am beth roedd Dylan yn ysgrifennu, yn eich barn chi?

- Gallai'r dysgwyr wneud eu perfformiad eu hunain o'r gerdd.
  A fyddant yn ei darllen ar eu pen eu hun neu gyda grŵp o'u ffrindiau yn y dosbarth? Pa un sydd fwyaf effeithiol?

  Os cafodd ei ffilmio, pa fath o gefndir y dylid ei ddefnyddio?